# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 12 Chwefror 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Agenda
(180)v2

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**3 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NDM5423 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) yr effaith andwyol y mae colli eu pensiynau wedi'i chael ar dros 700 o gyn-weithwyr Visteon sy'n byw yn ardal Abertawe a'r cyffiniau;

b) yr effaith ddilynol y mae colli pensiynau gweithwyr Visteon wedi'i chael ar economi Abertawe a'r cyffiniau;

c) y bydd pum mlynedd wedi mynd heibio ar 2 Ebrill eleni ers cau Visteon fel cwmni, a bod gorymdaith fawr yn cael ei threfnu yn San Steffan; a

d) bod eleni'n flwyddyn bwysig i'r ymgyrch, o ystyried y bydd achos llys Unite the Union yn erbyn Ford yn cael ei gynnal yn yr Uchel Lys yn Llundain ddiwedd 2014.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i effaith colli eu pensiynau ar weithwyr Visteon ac ar economi'r ardal lle maent yn byw.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu pwynt 2.

**4 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ardaloedd Menter (60 munud)**
**NDM5429 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i Ardaloedd Menter, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Rhagfyr 2013.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2014.

**Dogfennau Ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Ymateb Llywodraeth Cymru

**5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5430 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflawni rhaglen frys i fynd i'r afael â'r argyfwng parhaus o ran cyflenwad tai yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu popeth ar ôl 'gyflawni' a rhoi yn ei le, 'rhaglen gynhwysfawr a chynaliadwy i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy ar gyfer pob math o ddaliadaeth'.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod diffyg mynediad at dir sydd ar gael, mynediad at gyllid ac oedi yn y system gynllunio, yn creu rhwystrau rhag adeiladu tai yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ffyrdd o roi hwb i'r cyflenwad tai.

**Cyfnod Pleidleisio**

**6 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5419 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Rheoli diwygio lles

Sut y mae cynghorau lleol yn defnyddio taliadau tai yn ôl disgresiwn i liniaru effaith newidiadau i fudd-dal tai.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2014